

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

Adroddiad Blynyddol 2013-2014



Cynnwys

Cysylltwch â ni	2
Cyflwyniad	3
Safon y Gwasanaeth	3
Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	6
Diogelu'r Cyhoedd	8
Gwerth am Arian	9
Edrych Ymlaen	12
Atodiad A – rhaglen waith Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu 2014 -2017	15

Cysylltwch â ni:

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Pencadlys yr Heddlu
Croesyceiliog
Cwmbrân.
NP44 2XJ
Ffôn: 01633 642200

E-bost: Commissioner@gwent.pnn.police.uk

Gwefan: www.gwent.pcc.police.uk

Facebook: gwentpcc

Twitter: @gwentpcc

Lawrlwythwch y app - chwilio am gwentpcc

1. Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol hwn yn adeiladu ar yr adroddiad a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfnod [Tachwedd 2012 i Fehefin 2013](#), sy'n cwmpasu fy chwe mis cyntaf, ac mae'n diweddarau'r wybodaeth a geir yng [Nghynllun Heddlu a Throseddau 2013-2017](#).

Unwaith eto, bu'r cyfnod er mis Gorffennaf 2013 yn un prysur a chynhyrchiol iawn, wedi'i nodweddu gan nifer o weithgareddau gwerth sylw, ac nid oedd dathlu carreg filltir bwysig fy neuddeg mis cyntaf yn y swydd ymysg y lleiaf nodedig ohonynt.

Wrth edrych yn ôl dros y cyfnod hwn, rydym wedi dechrau gweld nifer o newidiadau yn y modd mae'r heddlu yn cyflawni eu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys symud oddi wrth y pwyslais ar dargedau a niferoedd sydd wedi symbylu plismona yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac ail-ganolbwyntio ar safon y gwasanaeth a ddarperir. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r cyhoedd, ac rydym wedi bod yn brysur yn gwrando a siarad â chi, er mwyn gweld beth yw eich barn am y gwasanaeth rydych yn ei dderbyn.

Un o brif amcanion fy Nghynllun Heddlu a Throseddau yw atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, ar gyfer y bobl hynny sydd, yn anffodus, yn dod yn ddioddefwyr, rydym yn gweithio'n barhaus gyda'r heddlu a darparwyr eraill i wella'r gwasanaethau a gynigir iddynt. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rwy'n ymfalchïo fy mod wedi datblygu f'ymrwymiad i osod dioddefwyr wrth galon popeth a wnawn.

Wrth i'r dyletswyddau a'r gofynion a osodir ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau barhau i ddatblygu, rwyf wedi cynnal adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddau er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol o hyd. Wrth wneud hyn, rwyf wedi cymryd i ystyriaeth fod angen i mi roi sylw i'r [Gofyniad Plismona Strategol](#) (SPR).

Yn gyntaf, fodd bynnag, hoffwn rannu'r cynnydd â chi ochr yn ochr â'm Blaenoriaethau Plismona a Throseddau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2013 i Fawrth 2014.

2. Safon y Gwasanaeth

Rydym wedi parhau i weithio'n galed i wrando ar ac i ymgysylltu â'r cymunedau ynglŷn â'r gwasanaeth heddlu y maent ei angen ac yn ei dderbyn. Fel rhan o hyn:

- mae fy staff a minnau wedi cyfarfod â thros 400 o breswylwyr lleol, mudiadau, grwpiau diddordebau arbennig a grwpiau cymunedol ledled Gwent. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi bod yn cyfarfod â darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio ledled Gwent.
- trwy strategaeth cyfryngau cymdeithasol effeithiol, rydym wedi llwyddo i godi ein proffil i dros 1,320 o ddilynwyr [Twitter](#) a thros 1,030 o ddilynwyr [Facebook](#),

ac mae ein [gwefan](#) ddwyieithog bellach yn derbyn, ar gyfartaledd, 2,500 o ymwelwyr y mis

- fel rhan o'm ymrwymiad i ymgysylltu mor eang â phosibl â phreswylwyr, lansiaws 'Ap' Heddlu a Throseddau cyntaf y Deyrnas Unedig ym mis Awst. Mae'n rhoi darlun rhyngweithiol o weithgareddau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau ledled Gwent a, hyd yma, mae dros 220 wedi lawrlwytho'r Ap.
- rwyf wedi parhau i ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, aelodau o'r cyhoedd a phartneriaid ynglŷn ag adolygu hygyrchedd swyddfeydd heddlu a'r newid yn eu defnydd. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio i ddarparu trefniadau addas yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd, ac mae'r [penderfyniadau a wnaed hyd yma](#) wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.
- rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau wedi ymateb i 40 cais Rhyddid Gwybodaeth.

Ym mis Hydref 2013, roedd archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi edrych ar ba mor effeithiol yr ydym yn ymgysylltu â chymunedau lleol er mwyn helpu i bennu a chyflawni blaenoriaethau plismona. Roedd canlyniadau'r archwiliad yn cydnabod ein bod yn datblygu trefniadau priodol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn caniatáu i gymunedau gynorthwyo i siapio'r gwasanaeth heddlu y maent yn ei dderbyn. Roedd hwn yn ganlyniad cadarnhaol iawn i ni ac yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed i gyflawni hyn.

Yn ogystal â hyn, mae Archwilwyr Mewnol wedi rhoi graddfa 'Sylweddol' o ran y trefniadau llywodraethu sydd wedi'u sefydlu i gefnogi fy mhroses gwneud penderfyniadau a gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau. Mae hyn yn golygu bod yna system gadarn o reolaeth fewnol wedi'i sefydlu ar gyfer y sefydliad.

Mae fy staff a minnau hefyd wedi bod yn cyfarfod â chi fel rhan o'n hadolygiad gweithredol o'r broses Partneriaid a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT). Mae hyn wedi darparu cyfleoedd i drafod ffyrdd o wella'r dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i ymgysylltu er mwyn sicrhau eu bod yn fwy ystyrlon i bawb. Mae set o egwyddorion ymgysylltu cefnogol wedi'i datblygu gyda phartneriaid. Mae'r gwaith hwn mewn grym ac mae'r heddlu ar hyn o bryd yn ystyried nifer o ddulliau un ai i ddisodli neu i wella darpariaeth Heddlu a Chymunedau Ynghyd er mwyn cwrdd yn well ag anghenion y gymuned a'r partneriaid sy'n rhan o'r broses.

Ym mis Medi, lansiaws fy [Siarter Dioddefwyr](#) yn gyhoeddus. Mae hwn yn amlinellu'r safonau gwasanaeth a'r gefnogaeth ofynnol y dylai pob dioddefwr yng Ngwent eu disgwyl. Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o'i amcanion gyda chymunedau a phartneriaid.

Rydym hefyd, ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol, yn cefnogi'r 'Project Undivided'. Mae hwn yn tracio a dadansoddi llwybrau 100 dioddefwr yng Ngwent trwy'r system cyfiawnder troseddol. Bydd y canfyddiadau annibynnol yn cael eu bwydo i mewn i Fwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent er mwyn parhau i

wella profiadau dioddefwyr gyda'r asiantaethau hyn. Mae adborth, sy'n ffurfio rhan o adroddiad interim yn ymwneud â rhyngweithio â'r heddlu, wedi'i dderbyn ac mae'n nodi esiamplau o arfer da a hefyd feysydd i'w gwella. Bydd mwy o wybodaeth ar gael pan gwblheir y project a'r adroddiad terfynol.

Rydym yn parhau i gefnogi'r cynllun [Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd](#) er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd fod yn hyderus y bydd pobl yn nalfa'r heddlu yn cael eu trin yn deg ac mewn amgylchedd priodol. Rydym hefyd yn cefnogi'r Cynllun Lles Anifeiliaid sy'n gwirio bod lles cŵn yr heddlu yn cael ei gynnal.

Rwyf hefyd yn parhau i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr heddlu i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer Gwent trwy ei ymrwymiad i ddarparu 'gwasanaeth sy'n gweithio'. Rwy'n derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr heddlu ar faterion yn ymwneud â pherfformiad, ac rwy'n cynnal cyfarfodydd un-i-un wythnosol gyda'r Prif Gwnstabl er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.

Gan fy mod yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng hyder y cyhoedd ac uniondeb yr heddlu wrth gofnodi troseddau, comisiynais adolygiad mewnol ar y cyd â'r heddlu er mwyn archwilio safon y data troseddol sy'n cael ei gofnodi. O ganlyniad i'r adolygiad mewnol hwn, credaf y gall cymunedau Gwent fod â hyder yn null Heddlu Gwent o gofnodi troseddau.

Mae gennyf gyfrifoldeb statudol i fonitro cwynion am swyddogion Heddlu Gwent y mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn delio gyda nhw, ac y fi yw'r Awdurdod Priodol mewn perthynas â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl. Er mis Ebrill 2013, rwyf wedi derbyn llai na 10 cwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl. Ar ben hyn, mae fy swyddfa yn delio gyda materion safon gwasanaeth a godir gan aelodau o'r cyhoedd, ac rydym yn ymgysylltu â'r heddlu er mwyn gallu rhoi ymatebion priodol i'r materion hyn. Derbyniwyd 200 o faterion safon gwasanaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014.


Hyder y Cyhoedd

Ar gyfer y 12 mis hyd at fis Medi 2013, roedd yr Arolwg Troseddu ar gyfer Lloegr a Chymru wedi nodi bod 56.7% o bobl Gwent yn teimlo 'Mae'r Heddlu yn delio gyda materion cymunedol'. Mae hwn yn gynnydd o 3.7% o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol. Hefyd, roedd 72% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod gan Heddlu Gwent well dealltwriaeth erbyn hyn o'n cymunedau. Fodd bynnag, er eu bod wedi cael eu graddio'n uchel ar gyfer 'Parchu pobl' (83.4% o'r rhai a ymatebodd), gwelwyd gostyngiad yn nifer y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin yn deg, o 63.1% i 60.1% yn ystod y 12 mis. 'Cael gwybodaeth gyson' yw'r maes sy'n bodloni dioddefwyr leiaf. Tra bo bodlonrwydd dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu 8.5% yn ystod y 12 mis i 63.7%, mae bodlonrwydd dioddefwyr troseddau wedi gostwng ychydig o 67.2% i 66.3%. Mae 93% o ddioddefwyr troseddau a 90% o ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon gyda'r 'Rhwyddineb cysylltu' ar

gyfer Heddlu Gwent. Fodd bynnag, mae bodlonrwydd dioddefwyr troseddau gyda 'Camau a gymerwyd' wedi bod yn gostwng er mis Medi 2012.¹

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn parhau i weithio gyda'r heddlu i gwrdd ag anghenion pobl leol a dioddefwyr troseddau, ac i wella hyder y cyhoedd yn Heddlu Gwent.

3. Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol



2

Labels for above graphs

Historical Comparisons for Last 4 Years = Cymariaethau Hanesyddol ar gyfer y 4 Blynedd Diwethaf

Overall Satisfaction – Crime = Bodlonrwydd Cyffredinol – Troseddu

Actual = Go iawn

Feb-Jan = Chwe, Maw, Ebr, Mai, Meh, Gor, Awst, Medi, Hyd, Tach, Rhag, Ion

The 'Victims Risk ... with the Victims = Cyn bo hir, bydd yr 'Asesiad Risg Dioddefwyr' yn cael ei roi ar waith ar gyfer pob dioddefwr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd y broses yn cael ei gwella er mwyn sicrhau bod pob dioddefwr yn derbyn diweddariad mewn pryd yn unol â'i ddymuniadau.

Overall Satisfaction – ASB = Bodlonrwydd Cyffredinol – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Actual = Go iawn

Feb-Jan = Chwe, Maw, Ebr, Mai, Meh, Gor, Awst, Medi, Hyd, Tach, Rhag, Ion

^{1 2} Bydd y data ar gyfer Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael ei ddiweddarau hyd at ddiwedd y flwyddyn ym mis Ebrill 2014

Rwy'n parhau i weithio'n gynhyrchiol gyda phartneriaid i atal a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol ehangach a chefnogi unigolion a'u cymunedau pan fyddant yn dod yn ddiodefwr. Mae gennyf gynrychiolaeth ar bedwar o'r pum Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn ardal yr heddlu, ac mae fy swyddogion yn cysylltu â'r rhwydweithiau amrywiol i sicrhau bod blaenoriaethau'r holl bartneriaid yn cael eu hystyried yn y prosesau cynllunio a chyflawni.

Rydym yn gweithio i asesu effeithiolrwydd projectau sy'n cefnogi'r blaenoriaethau hyn er mwyn llywio'r perfformiad cyffredinol a phenderfyniadau ariannu i'r dyfodol. Mae archwiliad mwy manwl o berfformiad yr heddlu yn cael ei gyflawni yn ôl yr angen trwy ddip-samplu a wneir gan staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a, lle bo'n briodol, ar y cyd â'n gwirfoddolwyr cymunedol mewn meysydd fel [stopio a chwilio](#).

Er mwyn cefnogi gweithgareddau partneriaeth a chymunedol sy'n effeithio ar fy mlaenoriaethau, rwyf wedi ceisio cynorthwyo sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau a chefnogaeth yn uniongyrchol i gymunedau. Yn ogystal â'r cyllid sydd eisoes wedi'i ddyfarnu, mae'r canlynol wedi'u cyflawni:

- Cafodd fy [Nghronfa Bartneriaeth](#) ei lansio ym mis Medi, gyda'r bwriad o gefnogi grwpiau cymunedol lleol sy'n gweithio i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i droi pobl oddi wrth y gweithgareddau hyn. O ganlyniad, rwyf wedi dyfarnu £99,470 o gyllid ledled Gwent i 25 project unigol.
- Rwyf hefyd wedi dyfarnu £1,000 yr un i'r wyth Panel Atal Troseddau yng Ngwent er mwyn cefnogi projectau buddiol a nodwyd gan aelodau'r panel fel rhai sy'n cefnogi mentrau plismona lleol, e.e. darparu larymau diogelwch personol ac ar gyfer y cartref er mwyn helpu i leihau ac atal troseddau. Mae'r gwirfoddolwyr ymroddedig hyn yn gweithio gyda swyddogion heddlu yn y gymdogaeth i gefnogi'u cymunedau lleol trwy godi ymwybyddiaeth o ba gamau y gallant eu cymryd i atal troseddau ac i'w diogelu eu hunain a'u heiddo rhag bwriad troseddol.
- Rwyf wedi cefnogi parhad system Cyswllt Gwarchod Ar-lein (OWL) y Cynllun Gwarchod Cymdogaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr aelodaeth, o 20,765 o ddefnyddwyr cofrestredig ym mis Chwefror 2013 i 37,008 ym mis Chwefror 2014 (neu un o bob wyth cartref yng Ngwent). Mae OWL yn caniatáu i wybodaeth am droseddau a gweithgareddau cysylltiol gael ei rhannu ymysg defnyddwyr, ac mae'n cynnwys cyfanswm o 69 cynllun gwarchod, yn cynnwys Gwarchod Ffermydd. Rhwng mis Medi 2013 a mis Ionawr 2014, roedd Cydgysylltydd Gwarchod Ffermydd Gwent wedi cynorthwyo i gynyddu nifer aelodau Gwarchod Ffermydd ar OWL o 300 i dros 700, sef cynnydd o 133%. Trwy ddefnyddio OWL ac ymgysylltu mwy â ffermwyr lleol, llwyddodd Swyddogion Heddlu Gwent i leihau nifer y troseddau ar ffermydd 27% yn y cyfnod hwn. Mae cudd-wybodaeth trwy OWL hefyd wedi arwain at gyfres o arestiadau, yn cynnwys gwarant ar fferm yng Nghasnewydd lle daethpwyd o hyd i eiddo wedi'i ddwyn, yn cynnwys tyrchwr gwerth £20,000 (Rhag 2013). Mae OWL yn lleihau ofn troseddau trwy sicrhau gwell cyfathrebu, tawelwch meddwl a negeseuon o

newyddion da sy'n cael eu hanfon gan swyddogion heddlu a chydgyssylltwyr. Mae lefelau cynyddol o ymwybyddiaeth, gwyliadwriaeth a gwelliannau i ddiogelwch cartrefi hefyd wedi golygu llai eto o droseddau.

- Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013/2014, rwyf wedi cytuno i barhau i gefnogi'r digwyddiadau *Wings to Fly* mewn ysgolion. Roedd perygl y byddai'r rhain yn dod i ben oherwydd diffyg cyllid. Mae'r ddrama bwerus hon yn codi ymwybyddiaeth o effeithiau cyffuriau, nid yn unig ar y defnyddwyr, ond hefyd ar y rhai o'u hamgylch.

Rwyf wedi parhau i ariannu Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau Gwent (DIP) sy'n cefnogi pobl sydd ynghlwm wrth y system cyfiawnder troseddol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau. Mae Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau Gwent yn anelu at leihau mwy o niwed o ganlyniad i aildroseddu a pharhau i gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys y defnydd o sylweddau seicoweithredol newydd. Yn ystod y cyfnod o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2013, cafodd 387 atgyfeiriad eu derbyn i Raglen Ymyriadau Cyffuriau Gwent a chwblhaodd 244 o bobl eu cyfnod o driniaeth.

Rydym yn gweithio gyda Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent i barhau i fonitro blaenoriaethau dynodedig mewn meysydd sy'n cynnwys erlyniadau, trais domestig, trosedd casineb a chyfraddau aildroseddu. Lle bo hynny'n briodol, rydym hefyd yn gweithio i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â maes cyfiawnder troseddol ehangach Gwent. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i fonitro gwaith i gefnogi'r Siarter Dioddefwyr a'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau, sy'n god statudol.

Gyda chefnogaeth y Bwrdd, rwy'n monitro cynnydd Biwro Partneriaeth Gwent, model a sefydlwyd rhwng Heddlu Gwent a'r Gwasanaethau Troseddau leuenctid, sy'n anelu at annog gwneud penderfyniadau ar y cyd, canlyniadau effeithiol ac ymyriadau cyfiawnder adferol ar gyfer pobl ifanc. Mae cyfradd bodlonrwydd y dioddefwyr sydd wedi cymryd rhan yn 100 y cant ar gyfer y broses hon.

4. Diogelu'r Cyhoedd

Rwyf hefyd yn parhau i weithio gyda chyd-Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabiliaid ledled Cymru ar faterion rhanbarthol, ac yn canolbwyntio ar gefnogi ein cymunedau trwy adeiladu perthynas gynhyrchiol gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol lleol, cenedlaethol a ledled y Deyrnas Unedig. Mae'n angenrheidiol fy mod hefyd yn ystyried y gofynion plismona cenedlaethol wrth gynllunio fy mlaenoriaethau.

Diogelu pobl rhag niwed difrifol

I gefnogi'r flaenoriaeth hon i ddiogelu pobl rhag niwed difrifol, rwy'n monitro'r holl wasanaethau Diogelu'r Cyhoedd sy'n cael eu gweithredu gan Heddlu Gwent. Mae'r gwaith monitro hwn yn ffurfio rhan annatod o'm Fframwaith Monitro Perfformiad, ac rwyf wedi gwneud trefniadau i dderbyn adroddiadau cyhoeddus chwarterol ar y canlynol:

- Diogelu Plant a'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) yng Ngwent
- Trais a Digwyddiadau Rhywiol Difrifol
- Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio (POVA) a Masnachu Pobl
- Cam-drin Domestig a Thrais yn Seiliedig ar Anrhydedd (HBV).

Rwyf hefyd yn derbyn diweddariadau ac adroddiadau gan Bennaeth Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gwent ar y gweithgareddau a'r gwaith a wneir gan grwpiau partneriaeth strategol a gweithredol cysylltiedig sy'n darparu gwasanaethau ym mhob un o'r meysydd uchod.

Mae fy staff a minnau wedi bod yn cyfarfod â darparwyr gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr y gwasanaethau. Bydd hyn yn ffurfio un o nifer o agweddau allweddol a ystyrir yn rhan o'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr yng Ngwent. Bydd canfyddiadau gan Broiect Braenaru Cam-drin Domestig Gwent, a ryddhawyd ym mis Mawrth, yn rhoi mwy o arweiniad i'n gweithgarwch yn y maes hwn o ddarparu gwasanaethau a chomisiynu.

Yn ystod y flwyddyn, mae mater iechyd meddwl a'r heddlu/gwasanaeth cyfiawnder troseddol wedi codi'n rheolaidd. Erbyn hyn, mae hwn yn amlwg ar f'agenda gan fy mod yn credu bod angen adolygu'r sefyllfa, nid yn unig yng Ngwent ond ledled Cymru hefyd. Er enghraifft, yn 2013, roedd cyfartaledd o 25 o bobl y mis yn cael eu cadw'n gaeth gan Heddlu Gwent yn unig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl; cafodd 58% o'r rhain eu rhoi yn y ddalfa ar gyfer eu hasesu yn hytrach nag mewn unrhyw sefydliad iechyd, ac mae'r ddau le yn cael eu hystyried yn Fan Diogel o dan y Ddeddf.

Credaf y gall y mater hwn cael ei ddatrys trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth a mabwysiadu dull unedig tebyg i'r hyn a lansiwyd yn Lloegr yn ddiweddar. Rwy'n trafod ffyrdd o weithredu ar y mater hwn â'm cyd-Gomisiynwyr a phedwar Prif Gwnstabl Cymru, yn ogystal ag â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yng Ngwent. Byddwn yn canolbwyntio mwy ar y maes gwaith hwn yn 2014/15 ac mae wedi'i amlygu yn y Cynllun Gwaith diwygiedig, yn Atodiad A.

Byddaf yn parhau i fonitro perfformiad a gwaith yr heddlu gyda'r partneriaid hyn er mwyn gostwng nifer y troseddau a gyflawnir yng Ngwent.

5. Gwerth am Arian

I'm cynorthwyo i sicrhau bod Heddlu Gwent yn darparu gwerth am arian o ran y ffyrdd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, rwyf hefyd yn derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd fel rhan o'r gwaith o fonitro'r gyllideb. Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi cyflawni'r canlynol:

- cytuno ar gyllideb ofynnol o £119,656,328 ar gyfer Heddlu Gwent yn 2014/15 (roedd y gyllideb yn £120,315,665 yn 2013/14)
- gosod y cynnydd ym Mhraesept y Dreth Gyngor ar 2.66% (2.66% oedd y cynnydd yn 2013/14)
- parhau i fonitro sut mae'r Prif Gwnstabl yn rheoli'r pwysau sy'n gysylltiedig â gwneud arbedion ar draws yr heddlu trwy'r rhaglen Cadw ar y Blaen³
- ar y cyd â'r Dirprwy Gomisiynydd a staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwyf wedi bod yn cyfarfod â'r rhai sydd wedi derbyn cyllid gennyf er mwyn gweld yn uniongyrchol sut mae cymunedau'n elwa ar y projectau hyn.

Mae paratoi'r Datganiad o Gyfrifon am 2013/14 wedi'i drefnu i ddechrau gyda gwaith archwilio interim yn gynnar yn 2014. Bydd y cyfrifon drafft wedi'u cwblhau erbyn 30 Mehefin 2014. Byddant yn cael eu harchwilio trwy gydol yr haf ac yna bydd yr arwyddo terfynol yn digwydd erbyn 30 Medi 2014. Roedd Adroddiad Archwilio terfynol 2012/13 yn cynnwys barn gadarnhaol ar y trefniadau roeddwn wedi'u gwneud er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi yn cynnal Astudiaeth Gwerth am Arian flynyddol sy'n cymharu pob heddlu yn Lloegr a Chymru. Mae heddluoedd unigol yn cael eu gosod mewn grwpiau 'Heddlu Mwyaf Tebyg' (MSF) er mwyn gallu cymharu wrth feincodi. Mae'r canfyddiadau o'r data yn cyfrannu at siapio a rhoi ffocws i'r rhaglen Cadw ar y Blaen, gan felly sicrhau mwy o werth am arian a gwella safon y gwasanaeth ar gyfer pobl Gwent.

Refeniw

Mae'r sefyllfa hyd yma yn dangos effeithlonrwydd carlam o £1.624m. Mae'r sefyllfa a ragwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dangos effeithlonrwydd carlam o £2.484m.

Cyfalaf

Mae'r Gyllideb Flynyddol Ddiwygiedig ddiweddaraf ar y cynlluniau arfaethedig ar gyfer 2013/14 yn £12.658m, a rhagwelir y bydd £5.591m yn cael ei gyflenwi yn y flwyddyn.

Rwy'n parhau i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr heddlu yn y [Bwrdd Strategaeth a Pherfformio](#) misol ac, o fis Ebrill 2014, byddaf yn cynnal y cyfarfodydd hyn yn gyhoeddus bob chwarter. Trwy gyfrwng y Bwrdd, rwy'n monitro perfformiad Safonau Proffesiynol a chofnodion y [Cyd-bwyllgor Archwilio](#)⁴ yn rheolaidd, yn ogystal â chynnydd yn erbyn y rhaglen Cadw ar y Blaen. Mae pob Agenda a Chofnod o gyfarfodydd, yn ogystal â [chofnodion o benderfyniadau](#) a wnaed, yn cael eu

³ Mae'r rhaglen Cadw ar y Blaen yn adolygiad hanfodol o Heddlu Gwent a ddechreuodd yn 2007 gyda'r bwriad o gyflwyno atebion sy'n cynrychioli'r defnydd gorau o adnoddau i wella effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau

⁴ Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn cynnwys pum unigolyn sy'n annibynnol ar y Prif Gwnstabl a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ei bwrpas yw darparu sicrwydd annibynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn â digonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig; darparu craffu annibynnol ar berfformiad ariannol yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd; a goruchwyllo'r prosesau adrodd ariannol sy'n bodoli. Maent yn adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

cyhoeddi ar fy ngwefan, sef www.gwent.pcc.police.uk. Rydym yn defnyddio'r wefan i gwrdd â'n dyletswyddau statudol i gyhoeddi gwybodaeth.

Rwyf hefyd yn cyfarfod â'r [Panel Heddlu a Throseddu](#) yn rheolaidd i sicrhau bod unrhyw argymhellion y maent yn eu gwneud o ran yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu â nhw yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella'r gwasanaethau ar gyfer pobl Gwent. Yn y chwe mis diwethaf, mae cyfarfodydd a gweithgareddau o bwys wedi cynnwys:

- cymeradwyo penodi'r Prif Swyddog Ariannol ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (Gorffennaf 2013)
- derbyn briff ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol (Hydref 2013)
- cymeradwyo penodi Prif Gwnstabl Heddlu Gwent (Tachwedd 2013)
- derbyn adroddiad diweddarau ar gynnydd Comisiynu (Rhagfyr 2013)
- derbyn diweddariad ar Strategaeth Reoli Trysorlys Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (Rhagfyr 2013)
- cadarnhau'r gyllideb ofynnol a gosod y Praesept ar gyfer y flwyddyn i ddod (Ionawr 2014)
- cyflwyno adroddiad ar Ddiweddariad o Berfformiad y Cynllun Heddlu a Throseddu (Ionawr 2014).

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent yn parhau i weithio'n effeithlon i gyflawni'r cynilion gofynnol ac, ar yr un pryd, yn sicrhau bod y gwasanaeth a gyflenwir yn effeithiol ac yn werth yr arian.

Ar ben hyn, mae'r Trosglwyddiad Cam Dau statudol o staff yr heddlu wedi bod yn gyrru yn ei flaen ar amser. Ar 6 Rhagfyr, cawsom gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Cartref am drefniadau'r Trosglwyddiad arfaethedig, ac mae pob aelod o staff bellach wedi cael ei hysbysu ynglŷn â'r newidiadau a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2014. Cafodd cynllun trosglwyddo ei anfon ymlaen at yr Ysgrifennydd Cartref ar 27 Chwefror, cyn y terfyn amser o 3 Mawrth 2014.

Rwyf hefyd wedi cwblhau adolygiad o staff fy swyddfa ac rwy'n fodlon bod y trefniadau yn cefnogi gofynion cyfredol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

O ran comisiynu gwasanaethau, mae'r Bwrdd Comisiynu Strategol wedi cael ei sefydlu'n llwyddiannus, gyda'r aelodaeth wedi'i thynnu o bartneriaid strategol allweddol ledled Gwent. Pwrpas y Bwrdd yw darparu cyfeiriad strategol i'm Rhaglen Gomisiynu mewn perthynas â chynllunio strategol, safon gwasanaethau, perfformiad a rheoli contractio ac ymgysylltiad rhanddeiliaid.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Gomisiynydd ac yn cynnwys cynrychiolaeth o'r canlynol:

- Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Awdurdodau Lleol
- Heddlu Gwent
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

- Ymddiriedolaeth Prawf Cymru
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gwent
- Sector Gwirfoddol Gwent

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli mewn swyddogaeth arsylwadol.

Mae'r aelodau wedi cytuno ar Fwriadau'r Fframwaith Comisiynu a'r Strategaeth Gomisiynu a fydd yn cael eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth ariannol i fentrau a phrojectau lleol sy'n hyrwyddo fy mlaenoriaethau. Mae'r Bwrdd yn rhan o drafodaethau â chyrrff cenedlaethol a phartneriaid rhanbarthol ar y bwriadau comisiynu.

Mae'r Bwriad Comisiynu yn cynnwys chwe rhaglen waith allweddol ar gyfer:

- Plismona Craidd
- Atal Troseddu
- Atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Diogelwch Cymunedol Strategol – Arweiniad, Llywodraethu a Goruchwyllo
- Gwasanaethau a Chefnogaeth i Ddiodefwr; ac
- Adsefydlu Troseddwr

Bydd hyn yn sicrhau gweithgarwch comisiynu effeithiol, canolbwyntiedig ac, ar yr un pryd, yn golygu cynnydd o ran effeithlonrwydd, gwerth am arian a gwell canlyniadau mewn perthynas â'm blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Yn ddiweddar, bu i'r Bwrdd gymeradwyo aelodaeth a chylch gwaith Grwpiau Gorchwyl a Gorffen sydd wedi'u sefydlu ar gyfer pob un o'r chwe rhaglen. Yn ystod y gwanwyn/yr haf, disgwylir i bob Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyflwyno 'glasbrint' i'w gyflawni yn y dyfodol.

6. Edrych Ymlaen – diwygiadau i'r Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2014-15

O ganlyniad i adolygu Cynllun Heddlu a Throseddu 2014–2017, rwy'n fodlon fod y blaenoriaethau a chanlyniadau allweddol yn parhau i fod yn briodol. Fodd bynnag, er fy mod yn derbyn gwybodaeth fonitro i gefnogi Blaenoriaeth 4 (Mae pobl Gwent yn cael eu diogelu rhag niwed difrifol), mae'r Mesurau Llwyddiant a'r gweithgareddau heddlu cysylltiedig a nodwyd yn y lle cyntaf yn cael eu hailystyried er mwyn sicrhau mai dyma'r rhai mwyaf priodol. Ceir adroddiad ar hyn maes o law.

Yn ychwanegol at hyn, mae Atodiad A yn darparu Cynllun Gwaith diwygiedig ar gyfer fy swyddfa sy'n amrywiad ar y cynllun gwreiddiol. Cafodd y Rhestr ei chyflwyno i gyfarfod mis Ionawr 2014 y Panel Heddlu a Throseddu iddynt ei hystyried, ac ni dderbyniwyd cais am ddiwygiadau. Ymgynghorwyd â'r Prif Gwnstabl ar y rhaglen ddiwygiedig, ac mae ei sylwadau wedi'u cynnwys yn yr Atodiad. Rwyf wedi gofyn i'm Prif Weithredwr ddiweddar peth o'r testun yn y cynllun gwreiddiol i adlewyrchu'r

sefyllfa bresennol, er enghraifft mewn cyswllt â'm Strategaeth Gomisiynu, er mwyn sicrhau bod y cynllun ar-lein yn gyfredol a pherthnasol.

Rwy'n ymrwymedig o hyd i gydweithio â'r Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau bod Heddlu Gwent yn darparu gwasanaeth o safon uchel ac o werth am arian i bobl ein cymunedau. Byddwn yn parhau i gydweithio i gyflawni'r Blaenoriaethau Heddlu a Throseddu, a bydd perfformiad perthnasol yr heddlu yn cael ei fonitro'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad.

Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth y gellir datrys llawer o'r materion sy'n ein hwynebu wrth gadw'n cymunedau'n ddiogel, ac mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn rhoi pwyslais mawr ar weithio mewn partneriaeth ac ar ymgysylltu. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael cyfle i drafod eich materion neu unrhyw bryderon ynglŷn â phlisma lleol, byddaf yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu'n ystyrlon â chi.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Bwriadau Comisiynu Strategol ar gyfer Gwent, gyda golwg ar eu gweithredu o fis 2014 ymlaen, pan fydd cyllid statudol ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr yng Ngwent yn dod yn rhan o'm cyfrifoldebau ariannol ehangach. Fel rhan o'n paratodau ar gyfer hyn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau ac asiantaethau trydydd sector i gefnogi'n prosesau gwneud penderfyniadau ac i lywio'r gwaith o ganfod y bylchau yn ein darpariaeth gyfredol o wasanaethau, ledled yr ardal, yn well.


Yn ogystal â hyn, byddaf yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer ariannu cymunedol trwy fy Nghronfa Bartneriaeth, a fydd ar gael unwaith eto yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y manylion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r diweddariad o'r rhaglen waith ategol ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu o fis Ebrill 2014 yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, yn arbennig o ran y cyfrifoldebau newydd sy'n cael eu rhoi i mi mewn perthynas â meysydd cyfiawnder adferol a dioddefwyr. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn parhau i gydweithio â phartneriaid i ddatblygu'r cylch nesaf o Aseiad Anghenion Unedig Gwent gyfan, a hefyd â'r heddlu i ddatblygu Aseiad Strategol Heddlu Gwent.

Byddaf hefyd yn cysylltu â'r Prif Gwnstabl ynglŷn â'r gofynion am adnoddau ar gyfer y gynhadledd NATO a gynhelir yng Nghasnewydd ym mis Medi. Mae cael croesawu'r digwyddiad hwn yn llwyddiant mawr i ni yng Ngwent, a byddwn yn cydweithio â phartneriaid ehangach i sicrhau bod y trefniadau cynllunio yn effeithiol ac yn llwyddiannus ar gyfer yr ymwelwyr pwysig a'r cymunedau dan sylw.

Fel arfer, rwy'n croesawu'ch adborth ar yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â'ch barn ar y gwasanaeth plisma rydych yn ei dderbyn. Gobeithiaf y byddwch yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o'r gweithgareddau ymgysylltu sydd ar

fin digwydd yn eich ardal leol, ac edrychaf ymlaen at glywed mwy gennych gydol y misoedd nesaf.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ian Johnston'.

Ian Johnston QPM,
Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent

Gwrando arnoch a gweithio er eich mwyn ...

Atodiad A – RHAGLEN WAITH SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU 2014-2017

Blaenoriaethau					
<ol style="list-style-type: none"> 1. Cyflenwi'r safon gorau o wasanaeth sydd ar gael 2. Lleihau ac atal troseddu 3. Gweithredu'n fwy effeithiol i leihau ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol 4. Diogelu pobl rhag niwed difrifol 5. Gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau Gwerth am Arian 					
	RHAGLEN A BLAENORIAETHAU	AMSERLEN			GWEITHGAREDDAU CYSYLLTIEDIG YN CYNWYS
		2014/ 2015	2015/ 2016	2016/ 2017	
1	Canolbwyntio ar diwygie dig dioddefwyr a thystion – 1,2,3,4	√	√		<ul style="list-style-type: none"> • Monitro cynnydd y Siarter Dioddefwyr • Gweithio gyda gwasanaethau dioddefwyr mewn perthynas â chomisiynu a'r Siarter Dioddefwyr • Gwaith partneriaeth parhaus gydag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol
2	Gwrando ar bobl yn ein cymunedau – 1,2,3,4	√	√	√	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno meddygfeydd cyhoeddus ledled Gwent • Gweithredu argymhellion adolygu Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) • Ymgysylltu cyhoeddus parhaus trwy gyfarfodydd, y cyfryngau cymdeithasol, y wefan
3	Gwella hyder y cyhoedd – 1,2,3,4	√	√	√	<ul style="list-style-type: none"> • Saernïo mwy o dryloywder i drefniadau camymddwyn yr heddlu • Ymgysylltu cyhoeddus parhaus trwy gyfarfodydd, y cyfryngau cymdeithasol, y wefan • Dip-samplu ffeiliau cwynion • Ystyried gweithredu Panel Apeliadau Annibynnol ar

					gyfer apeliadau yn erbyn cwynion a ddatryswyd yn lleol
4	Atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol – 1,2,3,4,5	√	√	√	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio i wella datrys problemau gyda chymunedau a phartneriaid • Darparu cefnogaeth ariannol o Gronfa Bartneriaeth y Comisiynydd • Hyrwyddo ymwybyddiaeth gymunedol ehangach o swyddogaeth Heddlu Gwent
5	Parhau i adolygu strategaethau'r heddlu (anweithredol) – 1,2,3,4,5	√	√	√	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys Grŵp Adolygu Polisi yr heddlu • Aelodaeth o fyrddau a grwpiau strategol yr heddlu • Ymgynghori ar newidiadau i bolisiau'r heddlu
6	Cynilion effeithlonrwydd a gwerth am arian parhaus – 1,2,3,4,5	√	√	√	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro'r rhaglen Cadw ar y Blaen • Cefnogi'r Prif Gwnstabl ym maes y Cyflogwr Delfrydol
7	Comisiynu gweithredu a monitro/gwerthuso – 1,2,3,4,5	√	√	√	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi cyfleoedd i gydweithredu yng Ngwent a thros y ffin • Cyflawni'r Bwriadau Comisiynu Strategol
8 Newydd	Rheoli troseddwy'r a chyfiawnder ieuenctid – 1,2,3,4	√	√	√	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu mentrau Cyfiawnder Adferol • Monitro Rheoli Troseddwy'r Integredig • Gweithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i lywio dulliau i'r dyfodol o fynd i'r afael â mentrau Adferol
9 Newydd	Gwella diogelu pobl hawdd eu niweidio – 1,2,3,4	√			<ul style="list-style-type: none"> • Monitro perfformiad yr heddlu • Ystyried mesurau iechyd meddwl, e.e. Concordat Iechyd Meddwl Cymru;

					<p>adolygiad o'r defnydd S136 o'r ddalfa fel lle diogel</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid perthnasol
10 Newydd	Gwella'r broses cyfiawnder troseddol – 1,2,3,4	√			<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio canlyniadau Project Undivided gan asiantaethau i nodi meysydd o arfer da a meysydd i'w gwella • Monitro cynnydd y Siarter Dioddefwyr • Parhau i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol
11 Newydd	Mynd i'r afael â Seiberdroseddu – 1,2,3,4,5	√	√	√	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro perfformiad yr heddlu • Goblygiadau ac ystyriaethau'r Gofyniad Plismona Strategol

Mae'r meysydd gwaith hyn yn atodol i'r dyletswyddau statudol a osodir ar y Comisiynydd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.